

Crynodeb Gwirio Ansawdd Wesley Blinman & Associates Dyddiad y gweithgarwch: 23 Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: 06 Ionawr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.hiw.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Wesley Blinman & Associates fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Wesley Blinman & Associates yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treorci. Mae'r practis hefyd yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac i'r GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r ddau reolwr cofrestredig¹ a rheolwr y practis ar 23 Tachwedd 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) gael mynediad i wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

¹ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol y practis a rhestr wirio
- Datganiad polisi amgylcheddol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Clywsom, ar ddechrau'r pandemig COVID-19, fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu i gynorthwyo â'r gwaith o reoli heintiau a'i wella. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- Roedd gweithdrefnau desgiau clir ar waith gydag eitemau diangen yn cael eu symud o' ystafelloedd triniaeth, y dderbynfa a'r ardal aros
- Ystafell benodol ar gyfer storio cyfarpar diogelu personol
- Nyrs gyfaill ar gael
- Sgrin amddiffynnol wedi'i gosod yn y dderbynfa
- Peiriannau hylif diheintio dwylo ar gael mewn lleoliadau amrywiol

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y practis, dywedwyd wrthym fod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r adeilad heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad. Cawsom wybod bod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn y practis.

Mae unrhyw gleifion y mae angen iddynt weld y deintydd yn derbyn gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod yr holl gleifion

sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffuriau ac offer brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith yn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod system ar waith i wirio'r cyfarpar a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys bob wythnos a bob mis i sicrhau nad ydynt wedi dyddio a'u bod yn barod eu defnyddio, yn unol â safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i wirio'r silindr ocsigen a'r diffibriliwr bob dydd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod taflenni ac arwyddion yn y practis yn ddwyieithog. Cawsom wybod hefyd bod gan y practis un aelod o staff sy'n siaradwr Cymraeg rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu hyrwyddo. Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i wasanaethau Cymraeg gael eu hyrwyddo.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel. [\[1\]](#)

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi COVID-19
- Polisi rheoli heintiau
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig
- Protocol glanhau â llaw
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o lanhau offer â llaw
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r ddeintyddfa
- Prosesau dihalogi
- Offeryn archwilio'r Gymdeithas Atal Heintiau
- Amserlen lanhau
- Polisi glanhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheoli cleifion deintyddol yng Nghymru yn ystod y broses adfer ar ôl y

pandemig COVID-19.² Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru. Gwelsom fod y practis wedi datblygu ei gweithdrefn ei hun, sy'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio, i arwain staff ar ddechrau'r pandemig. Dogfen fyw yw'r weithdrefn a chaiff ei diweddarau'n rheolaidd gan y rheolwyr cofrestredig i adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf.

Cadarnhawyd bod yr holl staff wedi derbyn diweddariadau COVID-19 rheolaidd dros yr e-bost, trwy grŵp WhatsApp³ dynodedig a thrwy gyfarfodydd ffurfiol. Mae cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod gan bawb gyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff sy'n gorfod defnyddio masgiau FFP3⁴ wedi derbyn prawf ffit i sicrhau bod y masg yn ffitio'n gywir ac y bydd yn cynnig amddiffyniad digonol.

Cadarnhawyd bod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg COVID-19 manwl⁵ i asesu risgiau personol parhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff yn y practis wedi'u brechu'n llawn ac wedi derbyn eu pigladau atgyfnerthu.

Dywedwyd wrthym fod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi cael ei optimeiddio gyda digonedd o stoc yn cael ei chyrchu a'i monitro'n wythnosol gan reolwr y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod amserlenni glanhau ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth ar waith a bod rhestrau gwirio dyddiol yn cael eu cynnal.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod archwiliad dihalogi a rheoli heintiau cyfunedig wedi cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2021. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr archwiliad yn seiliedig ar ddogfen hunanasesu Cymdeithas Atal Heintiau Adran Iechyd Lloegr. Rydym yn argymhell bod y practis yn cwblhau offeryn archwilio blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru,⁶ sydd wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.⁷ Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw wahaniaethau rhwng safonau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu nodi.

Darparwyd copi inni o'r weithdrefn glanhau â llaw ar gyfer dihalogi offerynnau deintyddol. Gwnaethom nodi bod tymheredd y dŵr i'w ddefnyddio trwy gydol y weithdrefn lanhau wedi'i adael yn wag. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod gan bob ystafell ddihalogi ei gweithdrefn glanhau â llaw ei hunan lle roedd y tymheredd wedi'i gynnwys. Gwnaeth rheolwr y practis

² Rheoli cleifion deintyddol yn ystod y broses adfer ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU

³ Cymhwysiad traws-blattform anfon negeseuon ar unwaith yw WhatsApp Messenger sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnwrid negeseuon testun, delweddau, fideos a chlywedol am ddim. Yn ogystal â negeseuon sylfaenol, mae WhatsApp yn darparu opsiynau sgwrsio mewn grŵp a rhannu lleoliadau.

⁴ Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

⁵ Mae'r Offeryn Asesu Risg wedi cael ei ddatblygu i helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG a maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r feirws COVID-19.

⁶ Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach. Awdurdod Iechyd Arbennig ydyw yn GIG Cymru ac mae'n cyd-fynd â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.

⁷ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad cydymffurfedd â dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

gadarnhau y bydd y brif weithdrefn glanhau â llaw yn cael ei diweddarau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben
- Taflen wybodaeth i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Polisi hyfforddiant staff
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol
- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr unigolyn cyfrifol)

Prif ddeintyddion Wesley Blinman & Associates yw'r rheolwyr cofrestredig a'r unigolion cyfrifol enwebedig.⁸

Gwelsom gopi o'r polisi hyfforddiant staff a chofnodion hyfforddiant gorfodol. Roedd y cofnodion yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u bod yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Cawsom yr adroddiad unigolyn cyfrifol diweddaraf, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dangosodd yr adroddiad dystiolaeth o'r ffordd y mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n cael ei reoli a'i asesu i sicrhau bod gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol yn cael eu bodloni.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau dilyniant darpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

Cawsom wybod bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gydraddoldeb a hawliau cleifion. Cawsom wybod bod slotiau apwyntiadau wedi'u diogelu ar gael i gleifion agored i niwed neu

⁸ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu'n swyddog arall yn y sefydliad ac sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli practis deintyddol preifat (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017).

mewn perygl ar ddechrau neu ddiwedd pob dydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a bod dwy ystafell driniaeth wedi'u lleoli ar y llawr daear. Cawsom hefyd wybod bod cyfleuster dolen glyw ar gael i gefnogi defnyddwyr dolenni clyw.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Fodd bynnag, canfuom nad oedd y datganiad o ddiben (wedi'i ddiweddarau yn 2021) yn cynnwys y canlynol:

- Y trefniadau a wneir ar gyfer ceisio barn cleifion am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y practis deintyddol preifat
- Orlau agor y practis ac unrhyw drefniadau i gleifion sydd angen gofal brys neu driniaeth y tu allan i oriau
- Y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion fel y nodwyd yn Rheoliad 21 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Y trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion

Mae'n rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys yr wybodaeth uchod a'i fod yn cael ei ddiweddarau o leiaf unwaith bob 12 mis er mwyn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau.

Gwelsom fod y practis wedi adolygu a diweddarau polisiâu allweddol yn sgil y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd fersiynau rhai o'r polisiâu/gweithdrefnau wedi'u rheoli ac nad oeddent yn cynnwys dyddiad adolygu. Mae'n rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a bod fersiynau wedi'u rheoli.

O'r dogfennau allweddol a adolygwyd gennym, roedd hi'n amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopiâu o archwiliadau perthnasol a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, megis croes-heintio, nodiadau clinigol a phelydrau-X. Roedd yr holl archwiliadau wedi cael eu cwblhau a, lle y bo angen, roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gynnal. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod cyfanswm o 15 o nodiadau clinigol yn unig wedi cael eu harchwilio ar gyfer y pedwar clinigydd, oddeutu tri i bedwar cofnod i bob clinigydd. Mae'r ffurflen templed archwiliad yn awgrymu bod rhwng 15 ac 20 o gardiau cofnodion yn cael eu harchwilio ar gyfer pob clinigydd. Canfuom hefyd nad oedd yr archwiliadau wedi'u dyddio'n glir, nad oeddent yn cynnwys manylion am bwy a wnaeth ymgymryd â'r archwiliad na chofnodion pwy a oedd yn cael eu harchwilio, ac nad oeddent yn cynnwys unrhyw ddynodwr claf unigryw.

Gwnaethom drafod yr archwiliad cardiau cofnodion a gwnaeth y rheolwyr cofrestredig gadarnhau y bydd archwiliad cardiau cofnodion pellach yn cael ei gwblhau lle y bydd rhwng 15 ac 20 o gardiau cofnodion yn cael eu gwirio i bob clinigydd. Mae'n rhaid i'r rheolwyr cofrestredig

hefyd sicrhau bod mwy o fanylion yn cael eu casglu wrth ymgymryd ag archwiliadau i sicrhau bod llwybr archwilio llawn ar waith.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Wesley Blinman & Associates

23 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r rheolwyr cofrestredig drefnu i wasanaethau Cymraeg gael eu hyrwyddo.	Safon 18 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cyfathrebu'n effeithiol)	Mae'r holl arwyddion bellach yn cael eu newid i fod yn ddwyieithog. Rydym wedi archebu pin laith Gwaith ar gyfer yr aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac rydym wrthi'n creu poster i nodi bod yr aelod o staff yn siaradwr Cymraeg.	Gareth Blinman	24 Ionawr
2	Rydym yn argymhell bod y practis yn cwblhau offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sydd wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Bydd yrr holl staff yn rhan o'r archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru newydd ar gyfer y practis.	Gareth Blinman	Dechrau'r broses ym mis Ionawr 2022
3	Dylai'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn glanhau â llaw ar gyfer dihalogi offerynnau deintyddol yn cael ei diweddarau.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Cynhaliwyd cyfarfod staff ar unwaith i hysbysu staff am y meysydd a gwmpesir yn ystod cyfarfod Haen 1. Mae'r staff yn	Gareth Blinman	Cwblhawyd mis Rhagfyr 2021

			ymwybodol bod angen cofnodi gwybodaeth am gynhyrchion a rhifau swp yn y llyfrau cofnodion.		
4	Mae'n rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a'i fod yn cael ei adolygu o leiaf bob 12 mis er mwyn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliad.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn adolygu'r datganiad o ddiben a gwirio ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, a hefyd yn sicrhau ein bod yn ei adolygu bob blwyddyn i gadw cydymffurfedd.	Gareth Blinman	24 Ionawr 2022
5	Mae'n rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a bod fersiynau wedi'u rheoli.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wrthi'n adolygu holl bolisiau'r practis a rhoi niferoedd fersiwn a dyddiadau iddynt a nodi pwy wnaeth eu hysgrifennu.	Gareth Blinman	24 Ionawr 2022
6	Dylai'r rheolwyr cofrestredig drefnu archwiliadau cardiau cofnodion pellach.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wrthi'n cynyddu'r archwiliad cardiau cofnodion o 20 i 60.	Karl Wesley	Chwefror 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Gareth Blinman

Dyddiad:
17/12/21

